

Cofion a Chyfarchion

- Yr ydym yn codi amryw yn yr ofalaeth o flaen yr Arglwydd yn ein gweddiâu heddiw eto. Cofiw'n yn arbennig am Glenys Jones (Llanefydd) a gweddiwn ei bod yn adnabod cwmni'r Arglwydd Iesu ac yn profi heddwch a thangnefedd yn ei chalon. Gweddiwn hefyd am i'r teulu brofi gofal a chariad Duw yn eu hamgylchynu hwythau. Mae Beryl Jones (Nantglyn) a Morfudd Roberts (Llanefydd) wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyd yr wythnos, ac mae Kitty Parry (Llanefydd) yn parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Hyderwn y cânt hwythau adnabod yr un nodedd, yr un nerth, a'r un tangnefedd.
- Llongyfarchiadau calonnog i J. Trefor Williams (Peniel) fydd yn cael ei anrhydeddu gan yr Orsedd ac yn derbyn Y Wisg Las yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Meifod eleni. Go dda yn wir!

I ddod

- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mehefin 12fed–13eg. Os nad ydych wedi archebu lle, cysylltwch â'r Coleg ar fyrder i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565.
- **CYMANFA GANU ANNIBYNWYR DYFFRYN CLWYD** dydd Sul, Mehefin 14eg yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2014-15. Arweinydd: Nia Evans, Talwrn. Croeso cynnes i bawb.
- **CHRISTIAN VIEWPOINT** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mehefin 15fed am 7.30. "Would God forgive a Terrorist?" gyda Billy McCurrie oedd yn aelod o'r UVF yng Ngogledd Iwerddon pan gafodd garchar am oes ag yntau ond yn 17 oed. Dewch i glywed ei stori am sut y trawsnewidiodd Duw ei fywyd. £3 yn cynnwys bwffe. Croeso i bawb.
- **SUL Y FRO** – dydd Sul, Mehefin 28ain yng nghwmni Dr Owain Edwards, Coleg y Bala. "i-Grist" – oedfa'r bore i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth yn Llansannan am 10.30. Yna, yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i Ganolfan Byd Mary Jones yn Llany Cil i gael picnic a chyfle i gymdeithasu, cyn cael tro o gwmpas y Ganolfan. Yna, ein gobaith yw cynnal "Oedfa o Fawl" yn y Bala cyn troi am adre (many lion yr oedfa i'w gadarnhau). Croeso i bawb!
- **YSGOL HAF Y WEINIDOGAETH IACHAU** ar Mehefin 29ain–Gorffennaf 1af yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd SY16 4AJ. Siaradwr gwadd: Y Parch. Wes Sutton, Cyfarwyddwr Acorn Christian Healing Foundation. Cysylltwch â Marian Lloyd Jones (01978) 846151 / geraint.w.jones@btinternet.com am fwy o wybodaeth.
- **CYRSIAU HAF COLEG Y BALA: Cwrs Ieuenctid (Bl.7-11)** Gorff. 27ain – 31ain; **Anrhefn Awst (8-12 oed)** Awst 10fed –13eg; **Souled Out (oed 15+)** Awst 15fed –20fed. Cysylltwch â Choleg y Bala am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Bydd gostyngiad o £20 i bob un o'r Ofalaeth fydd yn mynychu.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 31^{ain} Mai 2015

Darllenid y Dydd

Marc 6: 53-56

(BCND tud.45 / BCN: tud.41)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes i bawb ohonoch i wasanaethau'r dydd heddiw. Gan ei bod hi'n bumed Sul bydd Oedfa'r Fro ym Mheniel heno a chawn gyfle i wrando ar y Parch. John Robinson yn agor Gair Duw i ni. Brodor o'r America yw John ac er ei fod yn wyneb digon cyfarwydd i lawer ohonom, parhawn i ddiolch i Dduw am ei alw i'w genhadaeth arbennig ymhlith y Celtiaid a gweddiwn am eneiniaid yr Ysbryd Glân arno.

Bu'n wythnos gofiadwy yn Llancaiach Fawr wrth i Eisteddfod yr Urdd ymweld â Sir Gaerffili. Wrth edrych ar fymryn o'r ŵyl ar y teledu (a llongyfarchiadau calonnog i bawb o'r Fro fu'n cystadlu) daeth yn amlwg i mi mai un gair sy'n cael ei ddefnyddio'n aml i ddisgrifio'r Eisteddfod yw 'bwrlwm'. Mae'n air sy'n dod â sain dŵr yn byrlymu mewn nant i'r dychymyg – sŵn bywiog, prysur a diddiwedd. Gallaf ddychmygu bwrlwm tebyg pan gyrrhaeddodd Iesu Genesaret ym Marc 6, ein darllenid o'r Beibl heddiw. Pobl yn siarad ymysg ei gilydd am y dyn arbennig o Nasareth, ac yna'r cyffro'n cynyddu pan ddeuai Iesu'n agos. Roedd Iesu mor eithriadol o boblogaidd nes bod pobl yn rhedeg o gwmpas yn sôn amdano! Pam hynny tybed? Mae tystiolaeth yr Efengylau yn dangos bod pob agwedd o weinidogaeth ddaearol Iesu wedi gwneud cryn argraff ar bobl mewn un ffordd neu'r llall. Rhwng ei ddysgu grymus ac awdurdodol (Math. 7:28-29), ei wyrthiau rhyfeddol a'i esiampl hynod o gariad a thrugaredd yn treulio amser gyda chasglwyr trethi a phechaduriaid, prin oedd y rhai wnaeth anwybyddu Iesu. Ond tybed faint ohonom ni sy'n llwyddo i'w anwybyddu wrth wneud Iesu yn ddim mwy na ffigwr ymylol ac achlysurol yn ein bywydau? Gall hynny ddigwydd gan nad ydym yn gwerthfawrogi mawredd Iesu nac ychwaith yn sylweddoli difrifoldeb ein sefyllfa fel pechaduriaid. Yn ardal Genesaret, daethpwyd a chleifion o bob twll a chornel at Iesu ac fe iachawyd hyd yn oed y rhai a gyffyrddodd ag ymylon ei ddiillad. Ydym ni'n barod i ddod at Iesu mewn ffydd gan gyfaddef ein bod yn gleifion angen iachâd llwyr? Pechod yw'r afiechyd sydd ym mhawb ohonom ac sydd yn ein caethiwo gan ein gwahanu oddi wrth Dduw ac arwain at farwolaeth (Rhuf. 6:23). Ond Iesu yw'r iachawdwr cyflawn – yr un a gymrodd ein hafiechyd arno'i hun ar y Groes ac sy'n cynnig iachâd tragwyddol i'r rhai sy'n rhoi ei ffydd ynddo. Dyma reswm dros fod yn fyrlymus os bu un erioed, a rheswm da dros fynd ar wib a dweud wrth eraill amdano hefyd!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 31^{ain}
- **Oedfa'r Fro ar Daith** – y tro hwn ym Mheniel am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd y Parch. John Robinson yn pregethu.
- Llun – 1^{af}
- **Darlith “Mari Jones ac Ann Griffiths – Y Beibl, Yr Emyrn a Thomas Charles”** gan yr Athro E. Wyn James yn Festri Llansannan am 7.30. Croeso cynnes i bawb.
- Mawrth – 2^{il}
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Mercher – 3^{ydd}
- **Adnabod – Grŵp Mair** yn cyfarfod yn y Granar, Llansannan am 7.30.
- Gwener – 5^{ed}
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn – 6^{ed}
- **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn Festri Capel Tegid, Y Bala. (Paned am 10.00, y darlithoedd o 10.30 – 4.00.)
- Sul nesaf – 7^{fed}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 31^{ain}
- Bydd aelodau Cefn Meiriadog yn cynnal gwasanaeth yn Yr Hen Ddeondy am 10.30. Croeso i bawb. Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 7^{fed}
- Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma – 31^{ain}
- Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Iau – 4^{ydd}
- Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf – 7^{fed}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 31^{ain}
- Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 7^{fed}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 31^{ain}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Bydd trip Ysgol Sul Saron yn mynd i Gelli Gyffwrdd.
- Sul nesaf – 7^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 31^{ain}
- Cynhelir Gwasanaeth Thema yn Henllan am 10.00 ac fe wneir casgliad arbennig tuag at yr argyfwng yn Nepal. Bydd Ysgol Sul yno am 2.00. Bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00.
- Sul nesaf – 7^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 31^{ain}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15.
- Sul nesaf – 7^{fed}
- Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

- Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

2 Samuel 7:12-17 (BCND tud.286 / BCN: tud.262)